

# DOLEN Y TAB 91

28–29 Ionawr 2022

## Bore Sul 30 Ionawr am 11

Oedfa yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys gyda Sian Elin wrth y organ. Bydd modd gwyllo'r oedfa'n 'fyw' ar dudalen *Facebook* y capel, ynghyd â recordiad yn ddiweddarach ar *YouTube*.

**Cofiwch gofrestru sedd(i) erbyn 6 nos Wener.**

## YR OEDFAON NESAF

### Chwefror

- 6 Y Parchedigion Dyfrig Rees ac Eirian Rees gyda Bethan Roberts wrth yn organ.
- 13 Y Parchedig Aled Edwards a Wyn Rees gydag Eleri Huws yn cyfeilio.
- 20 Edwyn Evans a Sylvia Davies gyda Rhiannon Humphreys yn cyfeilio.
- 27 Geraint Wyn Davies a Nia Williams gyda Sian Elin wrth yr organ.

## Hefyd ddydd Sul 30 Ionawr

### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth yng ngofal Ceri Frances, Maidenhead.

### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

### 19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol

Nia Roberts fydd ar daith, gan gychwyn yn un o addoldai pwysicaf Cymru, Eglwys Gadeiriol Llandaf, i Benrhys yng Nghwm Rhondda, a dadorchuddio cyfrinachau ar hyd ffordd y bererindod.

### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod mis Chwefror o'r Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 8 Chwefror. Os oes unrhyw fater y carech ei godi, rhowch wybod erbyn nos Lun 7 Chwefror fan bellaf trwy e-bostio [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk), anfon neges testun i 07710 237327 neu ffonio 01443 225205.

# Un Cam ar y Tro

Wrth i don ddiweddaraf y pandemig ddechrau cilio o'r tir, byddwn yn symud yn ôl i Lefel Rhybudd Sero unwaith yn rhagor ddydd Sul. Felly bydd modd croesawu mwy o bobl i fynychu'r oedfaon nag yn yr wythnosau diwethaf. Serch hynny byddwn yn parhau i ddilyn cyngor Llywodraeth Cymru, sef ein bod yn cymryd mesurau rhesymol i sicrhau diogelwch pawb drwy lynu wrth y cyfyngiadau oedd mewn grym rhwng Medi a Rhagfyr o ran gwisgo mwgwd, cadw pellter o fetr rhwng pob swigen, ac awyru'r adeiladau. Hefyd byddwn yn parhau i ffrydio'r oedfaon i'ch cartrefi ar *Facebook*, gan ddiolch i Aled a Hefin am eu gwaith yn gofalu am hyn. Llawenydd mawr i bawb rwy'n siŵr yw'r adroddiadau calonogol cyson am ffyniant yr Ysgol Sul, y Twmiaid a'r Twmiaid Bach er gwaethaf yr amgylchiadau. Does ond gobeithio y daw cyhoeddiad yn fuan a fydd yn galluogi pob un ohonom i ddychwelyd at drefn sy'n llawer agosach at y sefyllfa a fodolai cyn i'r pandemig daro.



**Y Ganolfan,  
Capel Tabernacl** **10.00-11.30**

**Dydd Llun 17eg, 31ain o Ionawr a  
Chwefror 14eg**

**Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i  
plant/wyrion/wyresau**

**Cyfle i bawb gymdeithasu, chwarae gyda theganau ynghyd  
a chael ychydig o fwyd sy'n addas i blant.**

## Cylch Cadwgan

7.30 Nos Wener  
11 Chwefror 2022

**Myrdd o ryfeddodau – rhai hoff gerddi**  
Glenys M. Roberts

**Trefnir gan  
Gapel y Tabernacl, Efailisaf**

Cyfarfod Zoom

# Dathlu Jiwbilî

Mae'n anodd amgyffred y sioc enbyd a deimlwyd gan drigolion Coventry pan ddinistriwyd Eglwys Gadeiriol y ddinas ym mis Tachwedd 1940 o ganlyniad i gyrch awyr gan y Luftwaffe. Yn wyrthiol iawn, goroesodd y tŵr gorllewinol y bomio heb fawr o ddifrod. Yna o fewn dyddiau i'r cyrch datgelwyd mai'r cynllun oedd codi cadeirlan newydd ar bwys gweddillion yr eglwys ganoloesol er mwyn atgoffa pobl pa mor ofer a dinistriol yw rhyfeloedd. Yna, lai na chwech wythnos yn ddiweddarach, ar ddydd Nadolig 1940, cyhoeddwyd mai prif ffocws y gadeirlan newydd fyddai hyrwyddo heddwch a chymod rhwng pobl o bob cenedl ac o bob ffydd yn hytrach na'i rôl o fod yn ganolbwynt i addoliad Anglicanaidd yn unig.

## Y Gadeirlan Newydd



*Gweddillion yr eglwys ganoloesol a ddinistriwyd yn 1940, ochr-yn-ochr â'r eglwys gadeiriol newydd.*

Eleni, bydd Coventry yn dathlu 60 mlynedd ers cysegru'r gadeirlan newydd yn 1962. Bellach caiff yr adeilad, a gynlluniwyd gan y pensaer Syr Basil Spence, ei gydnabod fel un o'r mwyaf eiconig a godwyd erioed yng nghanolbarth Lloegr. Ymhlith ei nodweddion amlycaf gellid cyfeirio at y gyfres o ffenestri lliw trawiadol gan artistiaid dawnus megis John Piper, y tapestri anferth o waith Graham Sutherland, a cherflun efydd enfawr Jacob Epstein o'r diafol wedi ei ddofi. Ond er mor ysblennydd yw corff y gadeirlan, rhaid cydnabod mai'r nodwedd fwyaf cofiadwy yw'r modd y mae'r pensaer wedi llwyddo i asio cadeirlan fodernaidd gydag afeilion yr eglwys ganoloesol, gan adlewyrchu'r weledigaeth wreiddiol, sef oferedd rhyfeloedd.

## Cysylltiadau Cerddorol

Ond nid cysegriad yr eglwys yw'r unig reswm dros y dathliadau eleni. Fel rhan o'r rhaglen ar achlysur cysegru'r eglwys ym mis Mai 1962, fe gomisiynwyd y cyfansoddwr Benjamin Britten i lunio gwaith corawl i'w berfformio am y tro cyntaf yn yr eglwys. Fel cyfansoddwr o fri rhyngwladol a heddychwyr o argyhoeddiad roedd yn ddewis priodol i dderbyn y comisiwn, a chafodd neb ei siomi gyda'r *War Requiem* sy'n cael ei gydnabod bellach fel un o'r darnau cerddorol mwyaf pwerus erioed a gyfansoddwyd yn erbyn oferedd rhyfel. Mae'r gwaith wedi cael ei berfformio'n gyson dros y blynyddoedd ar draws y byd, gan gynnwys un perfformiad yn Eglwys Gadeiriol Coventry yn 2012 ar achlysur dathlu hanner can mlwyddiant y cysegriad.

Ond fel rhan o ddathliadau'r Jiwbilî derbyniodd cerddor talentog arall, sef Nitin Sawhney, gomisiwn i gyfansoddi gwaith safle-benodol i ddathlu'r ffaith bod Coventry yn ddinas noddfa a chanddi draddodiad cryf o gynrig lloches i ffoaduriaid a mewnfudwyr. Teitl y cyfansoddiad yw *Ghosts in the ruins*. Mae'r perfformiad wedi ei rannu'n ddwy ran – y rhan gyntaf tu mewn i'r adeilad newydd gyda darnau agos-atoch a myfyrgar, cyn bod y gynulleidfa i gyd yn symud allan i afeilion yr eglwys ganoloesol lle bydd corau cymunedol yn ymuno i ganu darnau mwy dramatig. Mae'r gwaith yn cael ei berfformio'n fyw am y tro cyntaf yn ystod yr wythnos hon, ond caiff ei ddarlledu ym mis Mai eleni.



Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)